**Equality, Local Government and Communities Committee Inquiry**

| Bore da | Good morning |
|---|---|
| Cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymgynghoriad ar Ddulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ym mis Hydref 2017. | The Equality, Local Government and Communities Committee issued a consultation on local approaches to poverty reduction: the Well-Being of Future Generations Act and public service boards in October 2017. |
| Mae'r Pwyllgor ers hynny wedi cytuno i gynnal sesiynau tystiolaeth i lywio'r ymchwiliad, ac mae'n awyddus i wahodd yr **Arweinydd Gweithredol neu Faer Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Abertawe** i ddod i'r sesiwn **ddydd Iau 7 Mehefin**. Cynhelir y cyfarfod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Bydd y sesiwn yn para tua awr a byddwn yn cadarnhau'r union amseroedd yn nes at y dyddiad. | The Committee has since agreed to hold evidence sessions to inform the inquiry, and would like to invite the **Executive Leader or Mayor of the Swansea Public Service Board** to attend the session on **Thursday 7 June**. The meeting will take place at the National Assembly for Wales, Cardiff Bay. The evidence session will last for approximately one hour and we will confirm exact timings nearer the date. |
| Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:<br>1. Cael dealltwriaeth o strwythur a swyddogaethau y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>2. Archwilio effeithiolrwydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r adnoddau a chapasiti.<br>3. Casglu tystiolaeth am faterion neu rwystrau sy'n gallu effeithio ar weithio'n effeithiol, ac enghreifftiau o arfer da ac arloesedd. | The terms of reference for the inquiry are below:<br>1. To gain an understanding of the structure and functions of the Public Services Boards.<br>2. To explore the effectiveness of PSBs, resourcing and capacity.<br>3. To gather evidence of issues or barriers that may impact on effective working, and examples of good practice and innovation. |
| Er mwyn llywio'r sesiwn dystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig ar y cylch gorchwyl erbyn **23 Mai** fan bellaf. Rhowch wybod os byddwch yn cael trafferth cyflawni hynny erbyn y dyddiad cau. | In order to inform the evidence session, it would be very helpful if you could provide a written submission on the terms of reference no later than **23 May**. If you have any problems meeting this deadline please let me know.<br><br>I should be grateful if you would let me know as soon as possible whether they are able to attend the evidence session. |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi gwybod cyn gynted â phosibl p'un a fyddyn nhw yn gallu dod i'r sesiwn dystiolaeth. | |

| | |
|---|---|
| Annwyl Gyfaill<br><br>Diolch ichi am ddod i'n cyfarfod ar 7 Mehefin i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n hymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y berthynas rhwng eich bwrdd gwasanaethau cyhoeddus chi a'ch Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol lleol a sefydlwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2016.<br><br>Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 5 Gorffennaf mewn pryd i lywio cam nesaf ein hymchwiliad. | Dear Colleague<br><br>Thank you for attending our meeting on 7 June to give evidence in connection with our inquiry into public services boards.<br><br>Following the evidence session, the Committee requested further information on the relationship between your PSB and your local Regional Partnership Board established in the Social Services and Well-Being (Wales) Act 2016.<br><br>I should be grateful if you would respond by 5 July in time to inform the next stage of our inquiry. |